

Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 23 Hydref 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

237(v4)

1 Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

[Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit]

Andrew RT Davies (Canol De Cymru): Yng ngoleuni Tŷ'r Cyffredin neithiwr yn cymeradwyo bargaen Brexit am y tro cyntaf ers y refferendwm, ar ffurf Bil Cytundeb Ymadael y Prif Weinidog, a wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad i'r Cynulliad?

[Gofyn i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth]

Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): Pa drafodaethau fydd Llywodraeth Cymru yn eu cynnal gyda'r awdurdodau perthnasol yng ngoleuni'r newyddion trasig bod cyrff



39 o bobl wedi'u darganfod mewn cynhwysydd lori yn Essex ar ôl iddynt ddod i mewn i'r DU trwy Gaergybi?

4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

5 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) – Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb LHDT

(60 munud)

NDM7144 [Sian Gwenllian \(Arfon\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu adroddiad o gynnydd am ei gwaith i fynd i'r afael â throseddau casineb LHDT yng Nghymru.
2. Yn galw am ddatganoli cyfiawnder er mwyn sicrhau dull integredig o fynd i'r afael â throseddau casineb LHDT ac amddiffyn pobl LHDT yng Nghymru.
3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu ei chynigion ar sut y gallai creu system gyfiawnder ddatganoledig i Gymru hybu diogelwch a llesiant pobl LHDT.

Cyd-gyflwynwyr

[Leanne Wood \(Rhondda\)](#)

[Mick Antoniw \(Pontypridd\)](#)

6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cyllido Ysgolion yng Nghymru

(60 munud)

NDM7166 [Lynne Neagle \(Torfaen\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg – Cyllido Ysgolion yng Nghymru, a [osodwyd](#) yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Gorffennaf 2019.

Nodyn: [Gosodwyd](#) ymateb Llywodraeth Cymru ar 16 Hydref 2019.

7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Mynd i'r Afael â Digartrefedd

(60 munud)

NDM7167 [Darren Millar \(Gorllewin Clwyd\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod nad yw polisïau cyfredol i fynd i'r afael â digartrefedd a chysgu ar y stryd yn cyflawni'r hyn sy'n ofynnol.
2. Yn cymeradwyo'r arferion da sydd i'w gweld yn y sector ac yn croesawu sefydlu Grŵp Gweithredu Digartrefedd Llywodraeth Cymru.
3. Yn nodi:
 - a) bod 25 o farwolaethau wedi'u nodi ymhlith pobl ddigartref yng Nghymru yn 2018, sy'n gynydd nodedig o'r 11 o farwolaethau a nodwyd yn 2017;
 - b) bod 25,937 o bobl wedi profi digartrefedd ledled Cymru yn 2017/18, yn ôl ffigurau gan Shelter Cymru;
 - c) bod nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd wedi cynyddu 75 y cant rhwng 2012 a 2017, a bod y nifer sy'n cysgu mewn ceir, pebyll ac ar gludiant cyhoeddus wedi cynyddu 50 y cant yn ôl ymchwil gan Crisis a Phrifysgol Heriot-Watt;
4. Yn nodi ymhellach gynllun gweithredu 10 pwynt y Ceidwadwyr Cymreig i fynd i'r afael â digartrefedd: 'Mwy na Lloches yn Unig'.
5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i benodi tsar digartrefedd, yn ddelfrydol rhywun sydd â phrofiad o fyw yn ddigartref ac sy'n gallu craffu ar gynydd tuag at roi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru.

[Y Ceidwadwyr Cymreig - Mwy na Lloches yn Unig](#)

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 – [Rebecca Evans \(Gwyr\)](#)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

1. Yn cydnabod bod yna fwy y gellir ei wneud bob amser i fynd i'r afael â digartrefedd.
2. Yn cymeradwyo'r arfer da a welir yn y sector tai mewn perthynas â digartrefedd, gan gynnwys y trefniadau partneriaeth sy'n cefnogi gwaith Tai yn Gyntaf Llywodraeth Cymru.
3. Yn croesawu sefydlu Grŵp Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Ddigartrefedd a ddatblygwyd mewn partneriaeth â'r sector, gan gynnwys elusennau digartrefedd, ac yn croesawu ei adroddiad cyntaf.

4. Yn nodi:

a) Bod un person digartref sy'n marw yn drasiedi.

b) Yr effaith y mae cyni a diwygiadau i'r system les wedi'i chael ar y niferoedd sy'n ddigartref.

5. Yn nodi ymhellach Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd ac ymgrych adduned y sector cyhoeddus.

[Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd: Adroddiad Hydref 2019](#)

[Strategaeth ar gyfer Atal a Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd](#)

[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 – 7 eu dad-ddethol]

Gwelliant 2 – [Neil McEvoy \(Canol De Cymru\)](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn credu bod methiant holl Lywodraethau Cymru dros yr 20 mlynedd diwethaf i ddatrys digartrefedd yng Nghymru yn warth cenedlaethol.

Gwelliant 3 – [Neil McEvoy \(Canol De Cymru\)](#)

Dileu pwynt 2.

Gwelliant 4 – [Neil McEvoy \(Canol De Cymru\)](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 2 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn credu bod dyblygu gwasanaethau, cyflogau uchel uwch reolwyr yn y trydydd sector, ynghyd â thoriadau i lywodraeth leol yng Nghymru yn gwneud sefyllfa lle mae digartrefedd eisoes yn wael yn waeth.

Gwelliant 5 – [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)

Cynnwys is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 3:

'Mae'r tueddiadau hyn wedi'u nodi yn Lloegr, lle mae hefyd gynnydd wedi bod yn nifer y marwolaethau ymysg y rhai sy'n cysgu ar y stryd. '

Gwelliant 6 – [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)

Dileu pwyntiau 4 a 5.

Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23 (iii), ni ddewiswyd gwelliant 7.

Gwelliant 8 – [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod toriadau Llywodraeth y DU i nawdd cymdeithasol wedi cyfrannu at y cynnydd mewn digartrefedd, fel y rhagwelodd y sector fyddai'n digwydd.

Gwelliant 9 – [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu na chafodd angen blaenoriaethol ei ddileu'n raddol er mwyn gwneud lle i ddyletswydd gyffredinol i sicrhau llety diogel yn ystod Deddf Tai (Cymru) 2014, ac yn credu bod hwn yn gyfle a gollwyd.

[Deddf Tai \(Cymru\) 2014](#)

Gwelliant 10 – [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y DU i fabwysiadu argymhellion yr adroddiad Crisis ar roi terfyn ar ddigartrefedd sy'n berthnasol i feysydd polisi sydd heb eu datganoli, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu argymhellion yr adroddiad argyfwng sy'n berthnasol i'w feysydd cyfrifoldeb.

[Crisis – Everybody In – How to End Homelessness in Great Britain 2018](#) (Saesneg yn unig)

Gwelliant 11 – [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Sicrhau bod Deddf Crwydradaeth 1824 yn cael ei datgymhwyso'n weithredol ym mhob un o ardaloedd yr heddlu yng Nghymru er mwyn osgoi gwneud pobl ddigartref yn droseddwr am gysgu allan a chardota.

[Deddf Crwydradaeth 1824](#)

Gwelliant 12 – [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn ogystal â darparu tai, yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n briodol i bobl sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, fel pobl â phroblemau iechyd meddwl, anabledau dysgu, defnyddwyr sylweddau problematig, pobl ag ADHD ac anhwylderau niwroddatblygiadol, carcharorion, cyn-filwyr, goroeswyr cam-drin rhywiol yn ystod plentyndod a

goroeswyr cam-drin domestig a'r rhai sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Gwelliant 13 – [Neil McEvoy \(Canol De Cymru\)](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatgan argyfwng digartrefedd ac i gyflwyno polisiau tai yn gyntaf i dynnu pobl oddi ar y strydoedd.

Gwelliant 14 – [Neil McEvoy \(Canol De Cymru\)](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu anghenion lleol wrth ymdrin â digartrefedd.

Gwelliant 15 – [Neil McEvoy \(Canol De Cymru\)](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gychwyn adolygiad bon a brig o'r holl arian cyhoeddus a gaiff ei wario yn y sector tai er mwyn mynd i'r afael â digartrefedd.

8 Cyfnod pleidleisio

9 Dadl Fer

(30 munud)

NDM7165 [Dawn Bowden \(Merthyr Tudful a Rhymni\)](#)

Grym tai cydweithredol fel modd o helpu i ddiwallu anghenion tai mewn cymunedau ledled Cymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 5 Tachwedd

2019

Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 16/10/2019 i'w hateb ar 23/10/2019

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Y Gweinidog Addysg

Alun Davies *Blaenau Gwent*

1 OAQ54591

(e)

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi darpariaeth iechyd meddwl mewn ysgolion?

Paul Davies *Preseli Sir Benfro*

2 OAQ54562

(e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllidebau ysgolion uwchradd yn Sir Benfro?

Neil McEvoy *Canol De Cymru*

3 OAQ54583

(e)

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyllid addysgol fesul disgybl yng Nghymru?

David Melding *Canol De Cymru*

4 OAQ54595

(e)

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i hysbysu ac addysgu pobl ifanc am ddigartrefedd drwy'r system addysg?

Andrew R.T. Davies *Canol De Cymru*

5 OAQ54563

(e)

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ynghylch sicrhau bod cyrff addysg yng Nghymru yn cael digon o arian, cyn cyhoeddi cyllideb Llywodraeth Cymru?

Lynne Neagle *Torfaen*

6 OAQ54602

(e)

Sut y mae'r Gweinidog yn sicrhau bod y canllawiau newydd ar siarad am hunanladdiad yn cael eu rhoi ar waith ym mhob ysgol yng Nghymru?

Rhun ap Iorwerth *Ynys Môn*

7 OAQ54605

(w)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddysgu dinasyddiaeth ryngwladol mewn ysgolion?

Mark Isherwood *Gogledd Cymru*

8 OAQ54570

(e)

Pa gymorth sydd ar gael ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yng Nghymru?

Vikki Howells *Cwm Cynon*

9 OAQ54575

(e)

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi lles meddyliol o fewn y sector addysg?

Angela Burns *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

10 OAQ54587

(e)

A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gyngor a ddarperir i awdurdodau lleol ynghylch defnyddio athrawon cyflenwi o asiantaethau?

Mohammad Asghar *Dwyrain De Cymru*

11 OAQ54566

(e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am addysg cydberthynas a rhywioldeb?

Jayne Bryant *Gorllewin Casnewydd*

12 OAQ54599

(e)

A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi lles emosiynol plant a phobl ifanc mewn ysgolion?

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Neil Hamilton *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

1 OAQ54596

(e)

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am amseroedd aros yn adrannau achosion brys ysbytai Cymru?

Lynne Neagle *Torfaen*

2 OAQ54603

(e)

Sut y mae'r Gweinidog yn sicrhau bod cleifion yng Nghymru yn gallu cael triniaethau newydd ar gyfer canser?

David Melding *Canol De Cymru*

3 OAQ54593

(e)

Beth yw ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad Carers Wales, 'Dilyn y Ddeddf'?

Vikki Howells *Cwm Cynon*

4 OAQ54576

(e)

A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi arloesi digidol o fewn gwasanaethau iechyd a gofal?

Russell George *Sir Drefaldwyn*

5 OAQ54571

(e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hygyrchedd cyfleusterau ar gyfer y rhai ag anableddau corfforol ym Mhowys?

Hefin David *Caerffili*

6 OAQ54592

(e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i bobl yng Nghymru sydd wedi cael diagnosis o glefyd Parkinson?

Joyce Watson *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

7 OAQ54585

(e)

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

Llyr Gruffydd *Gogledd Cymru*

8 OAQ54597

(w)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y defnydd o ymgynghorwyr allanol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr?

Mick Antoniw *Pontypridd*

9 OAQ54589

(e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau meddygon teulu yn Rhondda Cynon Taf?

Nick Ramsay *Mynwy*

10 OAQ54574

(e)

A wnaiff y Gweinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi cleifion sy'n gaeth i'r tŷ?

David Rees *Aberafan*

11 OAQ54600

(e)

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod pob nyrs yn cael y datblygiad proffesiynol parhaus sydd ei angen arnynt?

Huw Irranca-Davies *Ogwr*

12 OAQ54581

(e)

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gymdeithas Anemia Dinistriol ynghylch cynigion i wella diagnosis a thriniaeth?